

Ms Melissa Ross  
Cyfreithiwr  
Cyngor Gwynedd  
MelissaRoss@gwynedd.gov.uk

Mike Davey  
Casework & Environment Branch  
Ports Division  
Department for Transport  
Zone 2/34  
Great Minster House  
76 Marsham Street  
London SW1P 4DR

Direct Line: 020 7944 5162  
Fax: 020 7944 2186  
E-mail: mike.davey@dft.gsi.gov.uk

My Ref: PCP 10/14/1

Your Ref: DGO-0009

17 MEDI 2008

Annwyl Melissa,

### **Is-ddeddfau Harbwr Porthmadog**

Ymhellach i'ch gohebiaeth â'm cydweithiwr, Linturn Hopkins, gweler sylwadau ein ymgynghorwyr ynglŷn â'r is-ddeddfau drafft . Noder, os gwelwch yn dda, fod ein ymgynghorwyr cyfreithiol mewnl wedi gwrthod rhoi eu sylwadau ar yr is-ddeddfau yn ystod y cam hwn o'r broses.

#### **Is-ddeddf 3**

Yn is-ddeddf 3, o dan y diffiniad o'r "Rheoliadau Gwrthdrawiad", noda Tŷ'r Drindod (TD) a'r Royal Yachting Association (RYA) y dylid cyfeirio at Adrannau 85 ac 86 Deddf Llongau Masnachol 1995. Fodd bynnag, mae TH hefyd yn nodi nad yw'r term "Rheoliadau Gwrthdrawiad" yn cael ei ddefnyddio yn y is-ddeddfau.

Noda TD fod diffiniadau'r is-ddeddfau ar gyfer "Harbwrfeistr" a "Hofrenfad" yn wahanol i'r rhai a ddefnyddir yng Ngorchymyn Adolygu Harbwr Porthmadog 1988, ac yn y Gorchymyn hwnnw mae gan "Llestrau" a "Llestrau Dŵr Personol" eu diffiniadau eu hunain ond maent wedi eu cyfuno yn yr is-ddeddfau. Awgrymir y dylid ymdrin â'r anghysondebau yma.

Teimla'r RYA y dylai is-ddeddf 3 gynnwys diffiniad o "lestrau bach" (e.e. byrrach na 24m yn unol â'r diffiniad yn y Rheoliadau Hwyllo Morol tunnellerwerth, 1997).

Gan y cyfeirir at Dy'r Drindod yn is-ddeddf 50, awgryma TH y dylid cynnwys diffiniad ohono yn is-ddeddf 3. Byddai modd defnyddio'r diffiniad a geir yng Ngorchymyn 1988.

#### **Is-ddeddf 7**

Nid yw RYA yn credu ei bod yn rhesymol gofyn i'r meist'r sicrhau fod "llestr" sy'n gorwedd i angori, neu'n gorwedd yn y cei, gyda digon o griw parhaol arni neu fod yna un ar gael. Felly, ystyrir y dylid dileu y geiriau "a bod digon o griw ..." hyd at ddiwedd yr is-ddeddf. Neu fel arall, dylid nodi fod y geiriau "a bod digon o griw ..." hyd at ddiwedd yr is-ddeddf yn uniongyrchol berthnasol i "lestrau" yn unig, a dim at "lestrau" bach.

### **Is-ddeddf 10**

Teimla RYA nad oes eglurdeb ynghylch ystyr y geiriau, "i beri na all ei lestr symud" (10(1)) a "cael ei symud yn ddiogel gan ei pheiriannau ei hun" (10(2)). Yn eu tyb hwy, byddai'n afresymol i is-ddeddf o'r fath wahardd meistr rhag cymryd camau i sicrhau nad yw'r llestr yn cael ei dwyn a nad yw'r hwyliau'n cael eu cymryd oddi ar "lestr hwylio" nad oes ganddo bŵer ategol. Credant mai'r bwriad yn syml yw i'r Harbwrfeistr fod â'r gallu i symud y "llestrau" o fewn yr Harbwr pe byddai angen a credant fod hyn yn cael ei ganiatáu yn barod yn rhan gyntaf is-ddeddf 7. Felly, maent o'r farn y dylid dileu is-ddeddf 10.

### **Is-ddeddf 11**

Ystyria RYA y dylid dileu'r gair "dylai" yn y llinell gyntaf a defnyddio'r geiriau a ganlyn yn ei le, "Dylai Meistr llestr nad yw'n un bach, ar gais yr Harbwrfeistr,"

### **Is-ddeddf 17**

Ystyria RYA y dylai'r is-ddeddf hon fod yn berthnasol i "llestrau" sy'n cael eu llywio'n unig. Fel arfer nid oes gan "llestrau hwylio bychan" a hwyl fyrddwyr unrhyw fodd o fesur eu cyflymder. Yn ogystal, dim ond oddi mewn i'r Harbwr y mae'r is-ddeddfau hyn yn berthnasol. Ystyrir felly y dylid dileu is-ddeddf 17 a defnyddio'r geiriau a ganlyn yn ei le, "Ag eithrio pan geir caniatâd gan yr Harbwrfeistr ac yn amodol ar is-ddeddf 12, ni ddylai Meistr unrhyw lestr sy'n cael ei yrru â phŵer achosi na chaniatáu i lestr o'r fath symud yn gynt na 6 not o fewn yr Harbwr".

### **Is-ddeddf 21(a)**

Teimla RYA fod y gair "area" ar ddiwedd yr is-ddeddf yn y fersiwn Saesneg yn ormodol ac y dylid ei ddileu. Yn y paragraff ar ddiwedd is-ddeddf 21, ystyrir y dylid dileu'r geiriau o "lle bo'r difrod i'r llestr ..." hyd at ddiwedd yr is-ddeddf gan defnyddio yn eu lle,

"os caiff y gwch ei niweidio i'r fath raddau sy'n effeithio neu'n debygol o effeithio ar ei allu i forio, ni ddylai'r Meistr symud y llestr oni bai ar gyfer gwneud lle neu i glymu neu angori'n ddiogel, oni bai ei fod wedi derbyn caniatâd gan yr Harbwrfeistr ac ei fod yn gweithredu yn unol â'r cyfarwyddiadau hynny."

### **Is-ddeddf 23**

Cred RYA y dylid mynegi hyn i ddangos ei fod yn amodol ar unrhyw fynediad i'r cyhoedd ar draws cei neu llithrfa cyhoeddus.

### **Is-ddeddf 31**

Ystyria'r RYA y gall yr is-ddeddf hon ymyrryd â hawl y cyhoedd i hwylio. Dylid dileu'r geiriau o "dynodi unrhyw ran o'r harbwr i'w ddefnyddio ..." hyd at ddiwedd yr is-ddeddf ac yn eu lle defnyddio,

"dynodi neu osod i un ochr unrhyw dir neu waith o fewn yr harbwr y mae'r Cyngor yn berchen arno neu'n ei reoli ar gyfer defnydd unigryw, rhannol neu ffafriol neu darparu lle i unrhyw grefft, gweithgaredd, person, llestr neu ddsbarth o lestrau neu nwyddau arbennig a ni ddylai unrhyw berson na llestr, oni bai eu bod yn cydymffurfio â'r dynodiad, ddefnyddio unrhyw diroedd neu weithfeydd sydd wedi eu dynodi neu osod i un ochr heb ganiatâd yr Harbwrfeistr. Ni fydd yr is-ddeddf yn caniatáu gwahardd hwylio o fewn unrhyw ran o'r harbwr, nac ychwaith yn caniatáu ymyrryd â hawl y cyhoedd ar llithrfeydd cyhoeddus a cheioedd."

### **Is-ddeddf 32**

Noda RYA fod hyn yn ymyrryd â hawl y cyhoedd i forio a dylid unai sicrhau nad yw'n berthnasol i gychod bach neu ei fod yn cael ei ddileu yn gyfan gwbl.

### **Is-ddeddf 41**

Noda RYA nad oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i yswirio unrhyw gwch. Fel y cyfryw, nid oes gan yr Harbwrfeistr unrhyw awdurdod i ofyn am dystiolaeth o yswiriant a dylid dileu is-ddeddf 41.

### **Is-ddeddfau 42(2)(a) a (b)**

Ym marn RYA, ymddengys rhain yn rhy feichus a dylid eu dileu.

### **Is-ddeddf 43**

Noda RYA fod gan y cyhoedd yr hawl i forio yn nyfroedd yr harbwr a fod gan gwch personol yr un hawl i ddefnyddio hynny ag unrhyw lestr bychan sy'n cael ei yrru â phŵer. Felly, credant y dylid dileu is-ddeddf 43.

### **Arall**

Awgryma TD y dymunech efallai ystyried cynnwys is-ddeddf ychwanegol yn gwahardd arddangos goleuadau yn yr harbwr a all gael eu camgymryd fel cymorth neu ymyrryd â golwg morwyr yn ystod y nos.

Noda TD hefyd fod Is-ddeddf 1 a'r darpariaethau selio/llofnodi ar ddiwedd yr Is-ddeddfau yn cyfeirio at 2006. Dylid diweddarau'r rhain i 2008.

Teimla'r RYA nad oes ganddynt unrhyw ddewis ond gwrthwynebu drafft yr is-ddeddfau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, er gwaethaf eu gwrthwynebiad, buasent yn awyddus i weithio gyda chi mewn ymdrech i ddatrys eu pryderon ynghylch yr Is-ddeddfau arfaethedig ac edrychant ymlaen i drafod y mater maes o law. Dyma'r manylion cyswllt:

Gus Lewis  
Rheolwr Materion Cyfreithiol a Llywodraethol  
Royal Yachting Association

Ffôn: 023 8060 4220  
Ffacs: 023 8060 4294  
E-bost: [gus.lewis@rya.org.uk](mailto:gus.lewis@rya.org.uk)

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr uchod cofiwch gysylltu â mi.

Yn gywir

Mike Davey